



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2012 Rhif 2729 (Cy.292)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

Gorchymyn Gweithrediadau
Llusgrwydo Cregyn Bylchog
(Dyfeisiau Orlhain) (Cymru) 2012

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn rheoleiddio gweithrediadau llusgrwydo cregyn bylchog drwy osod gofyniad ar gychod pysgota Prydeinig penodol sydd â llusgrwydi cregyn bylchog arnynt i drosglwyddo gwybodaeth benodol. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Tachwedd 2012.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gwch pysgota Prydeinig sydd â llusgrwyd cregyn bylchog arno i gael dyfais olrhain wedi ei gosod ac i drosglwyddo'r wybodaeth ofynnol i'r derbynydd enwebedig bob deng munud tra bydd ar y môr.

Mae erthygl 4 yn darparu nad yw erthygl 3 yn gymwys i unrhyw gwch pysgota Prydeinig nad yw'n pysgota am gregyn bylchog yng Nghymru ac y mae unrhyw llusgrwydi cregyn bylchog sydd wedi eu cysylltu â'r cwch hwnnw wedi eu stowio a'u diogelu y tu allan i'r dŵr.

Mae erthygl 5 yn rhoi diffiniad o'r wybodaeth ofynnol y mae'n rhaid i'r ddyfais olrhain ei throsglwyddo i'r derbynydd enwebedig.

Mae erthygl 6 yn nodi gofynion penodol sy'n gymwys os na all y ddyfais olrhain drosglwyddo'r wybodaeth ofynnol yn unol ag erthygl 3.

Mae erthygl 7 yn gosod gofynion pellach ynghylch y ddyfais olrhain ar y person sydd â gofal dros unrhyw gwch pysgota Prydeinig y mae llusgrwyd cregyn bylchog arno.

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 No. 2729 (W.292)

**SEA FISHERIES,
WALES**

The Scallop Dredging Operations
(Tracking Devices) (Wales) Order
2012

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order, which applies in relation to Wales, regulates scallop dredging operations by placing a requirement on certain British fishing boats with scallop dredges onboard to transmit certain information. This Order comes into force on 1 November 2012.

Article 3 of this Order requires any British fishing boat which has a scallop dredge onboard to have a tracking device installed and to transmit the required information to the nominated receiver every ten minutes whilst at sea.

Article 4 provides that article 3 does not apply to any British fishing boat which is not engaged in scallop fishing in Wales and which has any attached scallop dredges stowed and secured out of the water.

Article 5 provides a definition of the required information which must be transmitted by the tracking device to the nominated receiver.

Article 6 sets out certain requirements which apply in the event of the tracking device becoming incapable of transmitting the required information in accordance with article 3.

Article 7 places further requirements regarding the tracking device on the person in charge of any British fishing boat which has a scallop dredge onboard.

Gwnaed Asesiad Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn ac mae ar gael i'w archwilio yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

A Regulatory Impact Assessment has been undertaken in relation to this Order and is available for inspection at the offices of the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2012 Rhif 2729 (Cy.292)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

**Gorchymyn Gweithrediadau
Llusgrwydo Cregyn Bylchog
(Dyfeisiau Orlhain) (Cymru) 2012**

Gwnaed 30 Hydref 2012

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 31 Hydref 2012

Yn dod i rym 1 Tachwedd 2012

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 5(1) o Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968(1) ac sydd bellach wedi eu breinio(2) ynddynt hwy.

Enwi, cychwyn a chymhwysu

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gweithrediadau Llusgrwydo Cregyn Bylchog (Dyfeisiau Orlhain) (Cymru) 2012 a daw i rym ar 1 Tachwedd 2012.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(1) 1968 p.77. Diwygiwyd adran 5(1) gan Ddeddf Terfynau Pysgodfeydd 1976 (p.86), adrannau 4(2), 5 a 9(1), Atodlen 1, paragraff 3(1) ac Atodlen 2, paragraff 17(1), Deddf Pysgodfeydd 1981 (p.29), adran 24(2) a Deddf Cyfiawnder Troseddol 1991 (p.53), adran 17(3), Atodlen 4, Rhan III ac fe'i diwygiwyd ymhellach gan O.S. 1999/1820, erthygl 4, Atodlen 2, Rhan I, paragraff 48(1) a (2). Gweler adran 19 o Ddeddf Pysgodfeydd Môr 1968 i gael diffiniad o "the Ministers"; diwygiwyd y diffiniad o "the Ministers" yn adran 19 gan O.S. 1999/1820, erthygl 4, Atodlen 2, Rhan I, paragraff 48(1), (5)(a), (b), (c)(i) a (ii) a (d).

(2) Yn rhinwedd erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd y swyddogaethau a oedd yn arferadwy o dan adran 5 o Ddeddf 1968 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y'i cyfansoddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38)) i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru ar yr amod bod y swyddogaethau o dan adran 5 sy'n ymwneud ag adnabod a marcio cychod pysgota yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn gydraddol ag unrhyw un o Weinidogion eraill y Goron y maent yn arferadwy ganddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a paragraff 30 o Atodlen 11 iddi.

2012 No. 2729 (W.292)

**SEA FISHERIES,
WALES**

**The Scallop Dredging Operations
(Tracking Devices) (Wales) Order
2012**

Made 30 October 2012

*Laid before the National
Assembly for Wales* 31 October 2012

Coming into force 1 November 2012

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred by section 5(1) of the Sea Fisheries Act 1968(1) which are now vested(2) in them.

Title, commencement and application

1.—(1) The title of this Order is the Scallop Dredging Operations (Tracking Devices) (Wales) Order 2012 and it comes into force on 1 November 2012.

(2) This Order applies in relation to Wales.

(1) 1968 c.77. Section 5(1) was amended by the Fishery Limits Act 1976 (c.86), sections 4(2), 5 and 9(1), Schedule 1, paragraph 3(1) and Schedule 2, paragraph 17(1), the Fisheries Act 1981 (c.29), section 24(2) and the Criminal Justice Act 1991 (c.53), section 17(3), Schedule 4, Part III and further amended by S.I. 1999/1820, article 4, Schedule 2, Part I, paragraph 48(1) and (2). See section 19 of the Sea Fisheries Act 1968 for a definition of "the Ministers"; the definition of "the Ministers" in section 19 was amended by S.I. 1999/1820, article 4, Schedule 2, Part I, paragraph 48(1), (5)(a), (b), (c)(i) and (ii) and (d).

(2) By virtue of article 2(a) of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) the functions exercisable under section 5 of the 1968 Act were transferred to the National Assembly for Wales (as constituted under the Government of Wales Act 1998 (c.38)) in so far as exercisable in relation to Wales provided that functions under section 5 relating to the identification and marking of fishing boats were exercisable by the National Assembly for Wales concurrently with any other Minister of the Crown by whom they are exercisable. Those functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cregyn bylchog" ("*scallop*") yw pysgod cregyn o rywogaeth *Pecten maximus*;

mae i "Cymru" yr ystyr a roddir i "Wales" yn adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(1);

ystyr "derbynnydd enwebedig" ("*nominated receiver*") yw'r corff a enwebir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd i gael yr wybodaeth ofynnol wedi ei throsglwyddo drwy ddyfais olrhain yn unol â'r Gorchymyn hwn;

ystyr "dyfais olrhain" ("*tracking device*") yw dyfais a all drosglwyddo'r wybodaeth ofynnol;

mae "llusgrwyd cregyn bylchog" ("*scallop dredge*") yn cynnwys unrhyw gyfarpar ac iddo ffrâm anhyblyg yn enau, a lusgir drwy'r dŵr ac a weithgynhyrchir, a addesir, a ddefnyddir neu y bwriedir ei ddefnyddio at ddiben pysgota am gregyn bylchog;

mae i "llythrennau porthladd" yr ystyr a roddir i "port letters" yn rheoliad 1 o Reoliadau Llongau Masnachol (Cofrestru Llongau) 1993(2);

ystyr "person sydd â gofal" ("*person in charge*"), mewn perthynas â chwch pysgota Prydeinig, yw perchennog, meistr neu siartrwr, os oes un, y cwch pysgota Prydeinig neu asiant unrhyw un ohonynt;

mae i "rhif porthladd" yr ystyr a roddir i "port number" yn rheoliad 1 o Reoliadau Llongau Masnachol (Cofrestru Llongau) 1993;

ystyr "WGS 84" ("*WGS 84*") yw System Geodesig y Byd a ddiwygiwyd ym 1984 ac a ddiwygiwyd ymhellach yn 2004; ac

ystyr "yr wybodaeth ofynnol" ("*required information*") yw'r wybodaeth a nodir yn erthygl 5.

Rheoleiddio gweithrediadau llusgrwydo cregyn bylchog

3. Yn ddarostyngedig i erthygl 4, rhaid i unrhyw gwch pysgota Prydeinig sydd â llusgrwyd cregyn bylchog arno—

- (a) bod â dyfais olrhain wedi ei gosod ar y cwch hwnnw; a
- (b) trosglwyddo'r wybodaeth ofynnol i'r derbynnydd enwebedig o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o ddeng munud tra bydd y cwch hwnnw ar y môr.

(1) 2006 p.32. Diwygiwyd adran 158(1) gan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (p.23), adran 43(1) a (2).

(2) O.S. 1993/3138. Diwygiwyd y diffiniadau o "port letters" a "port number" yn rheoliad 1 o O.S. 1993/3138 gan O.S. 1999/3206, rheoliadau 2 a 3(a) a (d). Mae diwygiadau eraill i reoliad 1 o O.S. 1993/3138 nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

Interpretation

2. In this Order—

"nominated receiver" ("*derbynnydd enwebedig*") means the body nominated by the Welsh Ministers from time to time to receive the required information transmitted by a tracking device in accordance with this Order;

"person in charge" ("*person sydd â gofal*") means, in relation to a British fishing boat, the owner, master or charterer, if any, of the British fishing boat or the agent of any of them;

"port letters" ("*llythrennau porthladd*") has the meaning given in regulation 1 of the Merchant Shipping (Registration of Ships) Regulations 1993(1);

"port number" ("*rhif porthladd*") has the meaning given in regulation 1 of the Merchant Shipping (Registration of Ships) Regulations 1993;

"required information" ("*yr wybodaeth ofynnol*") means the information set out in article 5;

"scallop" ("*cregyn bylchog*") means shellfish of the species *Pecten maximus*;

"scallop dredge" ("*llusgrwyd cregyn bylchog*") includes any appliance with a rigid framed mouth which is towed through the water and is manufactured, adapted, used or intended for use for the purpose of fishing for scallops;

"tracking device" ("*dyfais olrhain*") means a device which is capable of transmitting the required information;

"Wales" ("*Cymru*") has the meaning given in section 158 of the Government of Wales Act 2006(2); and

"WGS 84" ("*WGS 84*") means the World Geodetic System revised in 1984 and further revised in 2004.

Regulation of scallop dredging operations

3. Subject to article 4, any British fishing boat which has a scallop dredge onboard must—

- (a) have a tracking device installed onboard that boat; and
- (b) transmit the required information to the nominated receiver at least once in every ten minute period whilst that boat is at sea.

(1) S.I. 1993/3138. The definitions of "port letters" and "port number" in regulation 1 of S.I. 1993/3138 were amended by S.I. 1999/3206, regulations 2 and 3(a) and (d). There are other amendments to regulation 1 of S.I. 1993/3138 which are not relevant to this Order.

(2) 2006 c.32. Section 158(1) was amended by the Marine and Coastal Access Act 2009 (c.23), section 43(1) and (2).

Eithriad

4. Nid yw erthygl 3 yn gymwys i gwch pysgota Prydeinig—

- (a) nad yw'n cyflawni unrhyw weithrediad pysgota yng Nghymru mewn perthynas â chregyn bylchog; a
- (b) y mae pob llusgrwyd cregyn bylchog sydd wedi ei chysylltu â'r cwch hwnnw wedi ei stowio a'i diogelu y tu allan i'r dŵr.

Yr Wybodaeth Ofynnol

5. Yr wybodaeth ofynnol yw—

- (a) y llythrennau porthladd a'r rhif porthladd sy'n ymwneud â'r cwch pysgota Prydeinig sy'n trosglwyddo'r wybodaeth ofynnol;
- (b) safle daearyddol diweddaraf y cwch hwnnw gan ddefnyddio cyfesurynnau lledred a hydred ar yr WGS 84, gyda chyfeiliornad safle o lai na 10 metr;
- (c) y dyddiad a'r amser pan bennwyd safle daearyddol y cwch hwnnw; a
- (d) cyflymder a llwybr y cwch hwnnw y pryd hynny.

Methiant Dyfais Orlhain

6.—(1) Os na all dyfais olrhain sydd wedi ei gosod yn unol ag erthygl 3 drosglwyddo'r wybodaeth ofynnol, rhaid i'r person sydd â gofal dros y cwch pysgota Prydeinig y mae'r ddyfais olrhain honno wedi ei gosod arno—

- (a) sicrhau na ddefnyddir y cwch hwnnw i bysgota am gregyn bylchog; a
- (b) hysbysu Gweinidogion Cymru na all y ddyfais olrhain drosglwyddo'r wybodaeth ofynnol.

(2) Rhaid i hysbysiad o dan baragraff (1)(b) gynnwys llythrennau porthladd a rhif porthladd y cwch pysgota Prydeinig y mae'r ddyfais olrhain berthnasol wedi ei gosod arno.

(3) Pan fydd dyfais olrhain y mae paragraff (1) yn gymwys iddi wedi ei hatgyweirio neu ei hamnewid fel y gall y cwch pysgota Prydeinig y gosodwyd y ddyfais honno arno drosglwyddo'r wybodaeth ofynnol yn unol ag erthygl 3, rhaid i'r person sydd â gofal dros y cwch hwnnw hysbysu Gweinidogion Cymru y gall y cwch hwnnw gydymffurfio ag erthygl 3 cyn y caniateir defnyddio'r cwch hwnnw i bysgota am gregyn bylchog, eu cymryd neu eu lladd.

Gorfodi

7.—(1) Rhaid i'r person sydd â gofal dros gwch pysgota Prydeinig y mae dyfais olrhain wedi ei gosod arno yn unol ag erthygl 3 sicrhau—

Exception

4. Article 3 does not apply to a British fishing boat which—

- (a) is not engaged in any fishing operation in Wales in relation to scallops; and
- (b) has all scallop dredges attached to that boat stowed and secured out of the water.

Required Information

5. The required information is—

- (a) the port letters and port number which relate to the British fishing boat which is transmitting the required information;
- (b) the most recent geographical position of that boat using coordinates of latitude and longitude on the WGS 84, with a position error of less than 10 metres;
- (c) the date and time of the fixing of the geographical position of that boat; and
- (d) the speed and course of that boat at that time.

Failure of a Tracking Device

6.—(1) If a tracking device installed pursuant to article 3 is incapable of transmitting the required information, the person in charge of the British fishing boat upon which that tracking device is installed must—

- (a) ensure that that boat is not used to fish for scallops; and
- (b) notify the Welsh Ministers that the tracking device is incapable of transmitting the required information.

(2) A notification under paragraph (1)(b) must include the port letters and port number of the British fishing boat upon which the relevant tracking device is installed.

(3) When a tracking device to which paragraph (1) applies has been repaired or replaced so that the British fishing boat upon which that device was installed is able to transmit the required information in accordance with article 3, the person in charge of that boat must notify the Welsh Ministers that that boat is able to comply with article 3 before that boat may be used to fish for, take or kill scallops.

Enforcement

7.—(1) The person in charge of a British fishing boat which has a tracking device installed onboard pursuant to article 3 must ensure that—

- (a) na ellir cymryd rheolaeth â llaw o'r ddyfais olrhain sydd wedi ei gosod;
- (b) na all y ddyfais olrhain drosglwyddo gwybodaeth anwir;
- (c) na chaiff yr wybodaeth ofynnol ei newid mewn unrhyw ffordd;
- (d) na rwystrir unrhyw antena neu'r antenâu sy'n gysylltiedig â'r ddyfais olrhain mewn unrhyw ffordd; ac
- (e) na thorrir y cyflenwad pŵer i'r ddyfais olrhain mewn unrhyw ffordd.

(2) At ddibenion yr erthygl hon, ystyr "gwybodaeth" ("*information*") yw unrhyw wybodaeth sy'n rhan o'r wybodaeth ofynnol.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), gwaherddir dinistrio dyfais olrhain sydd wedi ei gosod at ddibenion erthygl 3, ei difrodi, ei gwneud yn anweithredol, ei symud ymaith neu ymyrryd arni fel arall.

(4) Rhaid i'r person sydd â gofal dros gwch pysgota Prydeinig sicrhau y caiff unrhyw gregyn bylchog a ddelir neu a gymerir ar y cwch hwnnw yn groes i ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn eu dychwelyd i'r môr cyn gynted â phosibl.

- (a) the tracking device installed is not capable of being manually overridden;
- (b) the tracking device is not capable of transmitting false information;
- (c) the required information is not altered in any way;
- (d) any antenna or the antennas connected to the tracking device are not obstructed in any way; and
- (e) the power supply to the tracking device is not interrupted in any way.

(2) For the purposes of this article "information" ("*gwybodaeth*") means any information which forms part of the required information.

(3) Subject to paragraph (4), it is prohibited to destroy, damage, render inoperative, remove or otherwise interfere with a tracking device installed for the purposes of article 3.

(4) The person in charge of a British fishing boat must ensure that any scallops caught or taken onboard that boat in contravention of the provisions of this Order, are returned to the sea as soon as possible.

Alun Davies

Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, o dan awdurdod y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, un o Weinidogion Cymru

Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes, under authority of the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science, one of the Welsh Ministers

30 Hydref 2012

30 October 2012

© Hawlfraint y Goron 2012

© Crown copyright 2012

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2012 Rhif 2729 (Cy.292)

**PYSGODFEYDD MÔR,
CYMRU**

Gorchymyn Gweithrediadau
Llusgrwydo Cregyn Bylchog
(Dyfeisiau Orlhain) (Cymru) 2012

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2012 No. 2729 (W.292)

**SEA FISHERIES,
WALES**

The Scallop Dredging Operations
(Tracking Devices) (Wales) Order
2012